

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter  
Caerdydd / Cardiff  
CF10 4BZ

Ffôn / Phone: 029 2032 0500

Ffacs / Fax: 029 2032 0600

Ffôn testun / Ffôn testun: 029 2032 0660

[post@archwilio.cymru/info@audit.wales](mailto:post@archwilio.cymru/info@audit.wales)

[www.archwilio.cymru / audit.wales](http://www.archwilio.cymru / audit.wales)

Mr Chris Moore  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol  
Neuadd Sirol Cyngor Sir Caerfyrddin  
Caerfyrddin  
SA31 1JP

**Cyfeirnod:** WPP-23/24

**Dyddiad cyhoeddi:** 2 Gorffennaf 2024

Annwyl Chris,

## Cyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru 2023-24 Ffurflen Flynyddol

Yn unol â gofynion Adran 12 ac Adran 14 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rwy'n rhoi fy adroddiad ar Ffurflen Flynyddol Cydbwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024.

Rwyf wedi ymgymryd â'n gwaith yn unol â'r gweithdrefnau penodedig a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn gryno, mae'r gweithdrefnau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried a yw'r Ffurflen Flynyddol:

- wedi eu paratoi ar sail resymol (er enghraifft, mae'r ffigurau'n cytuno i'r cofnodion gwaelodol y cawsant eu paratoi arnynt ac maent yn gyson â'r trafodiadau a gofnodwyd yng nghyfrifon statudol yr awdurdodau lleol cyfansoddol ar gyfer yr un cyfnod adrodd); ac
- yn castio'n gywir

**Adroddiad archwilio ar y Ffurflen Flynyddol yn ymwneud â chyd-bwyllgor Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024:**

Yn amodol ar gymeradwyo Ffurflen Flynyddol 2023-24 gan y cyd-bwyllgor sydd i'w wneud yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2024, byddwn yn gallu cadarnhau'r canlynol:

"Ar sail ein hadolygiad ac yn ein barn ni, mae'r wybodaeth yn y Ffurflen Flynyddol yn unol ag arferion priodol ac nid oes unrhyw faterion wedi dod i'n sylw gan roi achos dros bryder nad yw deddfwriaeth berthnasol a gofynion rheoleiddio wedi cael eu bodloni."

**Materion eraill**

Nid oes gennym unrhyw faterion eraill y mae'n rhaid i ni eu dwyn i'ch sylw.

Yn gywir



**Derwyn Owen**

**ar gyfer ac ar ran Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru**